# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llanycil

Nos Fawrth, Gorffennaf 11eg 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Presennol: Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Jean Roberts, Catrin Roberts a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Rhys Richards, Geraint Jones

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 16eg 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Partneriaeth Penllyn/ Cwmni Pum Plwy Penllyn - Cynrychiolwyr y Cyngor – **cytunodd Catrin Roberts fynychu'r cyfarfodydd ar ran y Cyngor.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Cynllun Rhannu Cartref.

b) Un Llais Cymru.
i) Rheolau Sefydlog Newydd – **Mabwysiadwyd.**

c) Amrywiol.
i) Triathlon Bala – diweddariad.
ii) Arolwg Cysylltedd Cymru.
iii) Cadwch Gymru'n Daclus - Cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
iv) Digwyddiad 'Ardal Ni 2035' Dalgylch Bala Penllyn - 25.5.2023
v) Eglwys y Drindod Sanctaidd Penrhyndeudraeth – Gardd Llonyddwch.
vi) Dŵr Cymru - diweddariad Llyn Celyn.

v) Ceisiadau Cynllunio.
NP5/72/134P – Ail-leoli ystafell fyw. Llain 4, Maes Gwyn, Rhyduchaf.
NP5/72/151C – Trosi sgubor i lety gwyliau, creu ffordd mynediad a gosod uned trin carthion. Cyffdy, Parc.
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol.**

vi) Materion Ariannol
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau Ebr-Meh 2023) **– Cymeradwywyd.**
b) Taliadau - Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh), TWE a printer newydd i'r Clerc – **Cymeradwywyd.**
c) Ceisiadau Ariannol – Hosbis Tŷ'r Eos - **cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEDI 12FED YN NEUADD MAESYWAEN.**